Llawlyfr Hyfforddiant

Helen Dale ac Arwyn Roberts

Swansea University
Prifysgol Abertawe

ARIENNIR GAN Y
LOTERI GENEDLAETHOL
NATIONAL
LOTTERY FUNDED

PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

‘Gweithio gyda phlant i adeiladu byd sy’n addas i bawb”

Lleisiau Bach Little Voices yw’r dull y mae Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc yn ei ddefnyddio i rymuso plant fel ymchwilwyr ac fel eiriolwyr, i helpu i wreiddio hawliau dynol yn lleoedd pob dydd plant ac i alluogi cydgynhyrchu newid mewn dull oed-gynhwysol.

Menter yw Arsyllfa Cymru sydd wedi’i lleoli ym Mhrifysgolion Abertawe a Bangor, ac mae’n gweithio gydag ystod eang o bartneriaid a disgyblaethau i helpu i sicrhau bod hawliau dynol plant a phobl ifanc yn cael eu parchu, eu hamddiffyn a’u cyflawni.

ARSYLLFA @ ABERTAWE • OBSERVATORY @ SWANSEA •

ARSYLLFA @ BANGOR • OBSERVATORY @ BANGOR •

Cynnwys

1) **Cyflwyniad a chefndir**

2) **Plant fel Ymchwilwyr**

Proses Lleisiau Bach Little Voices

Dewis grŵp ymchwil

Yr ymweliad cyntaf â phlant

3) **Y Chwe Cham**

Cam 1:

Y dull gweithredu seiliedig ar hawliau
Dewis y cwestiwn ymchwil

Cam 2:

Dewis dulliau ymchwilio a chynllunio'r ymchwil

Cam 3:

Casglu a dadansoddi'r data

Cam 4:

Cynllunio ar gyfer cydgynhyrchu oed-gynhwysol

Cam 5:

Gwaith dilynol gyda'r plant

Cam 6:

Cydgynhyrchu oed-gynhwysol a chynllunio ar gyfer y dyfodol

Cyflwyniad a Chefndir

Datblygwyd cysyniad Lleisiau Bach yn sgîl ymchwil gyda phlant o dan 11 oed fel rhan o adroddiad anllywodraethol i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. (*Pam bod oedrannau plant yn mynd i fyny, nid i lawr? 2007*, y Ddraig Ffynci). Ers hynny, mae Lleisiau Bach wedi tyfu trwy nifer o gamau:

1. **2010 – 11: Plant fel Ymchwilwyr**. Y Ddraig Ffynci a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Datblygu pecyn dulliau ac adnoddau.

2. **2012 – 14: Lleisiau Bach, Dewisiadau Mawr**. Bu'r Ddraig Ffynci, gyda chymorth cyllid grant o gronfa Pobl a Lleoedd y Loteri Fawr, yn darparu ac yn rhoi prawf ar y dull gyda grwpiau o blant o 12 awdurdod lleol mewn ysgolion a grwpiau cymunedol ledled Cymru. (*Lleisiau Bach, Dewisiadau Mawr*, 2014, Y Ddraig Ffynci)

3. **2014 – 2017: Lleisiau Bach yn Galw Allan**. Trosglwyddwyd y prosiect hwn, a gychwynnwyd gan y Ddraig Ffynci gyda chyllid grant pellach o gronfa Pobl a Lleoedd y Loteri Fawr, i'r Arsyllfa ym Mhrifysgol Abertawe ym mis Hydref 2014. Yn ystod y cyfnod hwn, defnyddiwyd y dull i gynhyrchu'r adroddiad cyntaf o'i fath yn y byd, sef adroddiad dan arweiniad plant o dan 11 oed i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (*Lleisiau Bach yn Galw Allan*, 2015, Arsyllfa Cymru) yn ogystal â darparu prosiectau ymchwil lleol trwy Gymru gyfan, gan greu effaith leol a chyfle i brofi a gwerthuso'r dull ymhellach.

4. **2017-2020: Lleisiau Bach yn Cael eu Clywed**. Mae Lleisiau Bach yn Cael eu Clywed, sydd â'r nod o ddefnyddio'r dull mewn ffordd gynaliadwy mewn amrywiol feysydd gweithgaredd sy'n gysylltiedig â gweithredu cymunedol a datblygu cymunedol, yn symud y tu hwnt i'r cysyniad gwreiddiol o rymuso plant fel ymchwilwyr ac adroddwyr. Ei nod yw meithrin y gallu i gydgynhyrchu newid mewn dull oed-gynhwysol, wedi'i lywio gan ymchwil plant. I wneud hyn, bydd gofyn meithrin gallu oedolion yn ogystal â phlant, hyfforddi gweithwyr proffesiynol ynghylch y dull a sut mae ei gymhwyso i'w gwaith, a darparu cymorth ar gyfer prosiectau dilynol er mwyn sicrhau effaith.

Ym mis Tachwedd 2016, cyrhaeddodd y prosiect rownd derfynol y Gwobrau Ymgysylltu a noddwyd gan y Ganolfan Gydlynu Genedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd, a hynny mewn cystadleuaeth o safon uchel yr oedd prifysgolion ledled y Deyrnas Unedig yn rhan ohoni. Roedd asesiad y beirniaid o'r prosiect yn cynnwys y canlynol:

> ***'Teimlai'r panel fod y prosiect hwn wedi defnyddio dull canmoladwy o gynnwys pobl ifanc - mor ifanc â 7 oed - yn ymchwilwyr gweithredol, gan ddefnyddio ymchwil i adfyfyrio'n feirniadol ar faterion oedd yn wirioneddol bwysig iddynt, ac i gyfleu eu canfyddiadau i'r bobl allweddol sy'n gwneud penderfyniadau.'***

Mae'r Arsyllfa ym Mhrifysgolion Abertawe a Bangor yn gweithio i wreiddio'r fethodoleg mewn ymchwil ac addysgu, yn ogystal â pharhau i gefnogi monitro hawliau dynol a gweithredu cymunedol. Gellir defnyddio'r dull gweithredu hwn mewn llawer o leoliadau a disgyblaethau gwahanol. Gellir ei addasu'n helaeth i gefnogi sefydliadau sydd am ymgysylltu'n fwy effeithiol â phlant a phobl ifanc.

Mae'r Llawlyfr hwn yn darparu gwybodaeth am y dull gweithredu a'r adnoddau y gellir eu defnyddio wrth ei roi ar waith. Rydym yn croesawu ymholiadau ac adborth: ceir manylion cyswllt ar ddiwedd y Llawlyfr.

Plant fel Ymchwilwyr

Mae angen i ni osod cyfraniad plant mewn ymchwil yng nghyd-destun fframwaith rhyngwladol seiliedig ar hawliau lle bydd hawliau gan blant (0-18 oed) yn ogystal â chan oedolion. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn pwysleisio galluoedd datblygol plant (yn Erthygl 5, er enghraifft), a'r cyfrifoldeb sydd gan rieni, teuluoedd, cymunedau, llywodraethau, cyrff cyhoeddus a gweithwyr proffesiynol i'w harwain a'u cefnogi i arfer eu hawliau. Mae'r Confensiwn yn gofyn bod hawliau cyfranogol plant yn cael eu cydnabod a'u cyflawni yn ogystal â'u hawl i gael eu cadw'n ddiogel a derbyn cymorth yn unol â'u hanghenion penodol.

Mae CCUHP yn llywio ein methodoleg a'r modd y byddwn yn ei rhoi ar waith. Hefyd, mae'n darparu fframwaith ar gyfer cynnal pob prosiect. Mae darpariaethau'r Confensiwn yn dibynnu ar ei gilydd ac ni ellir eu gwahanu, ond wrth wneud gwaith ymchwil gyda phlant, mae'n arbennig o bwysig ein bod yn nodi'r gofynion canlynol:

- Diogelu hawl plant sy'n medru ffurfio eu barn eu hunain i fynegi eu barn yn rhydd ar bob mater sy'n effeithio arnynt, a rhoi pwyslais dyledus ar farn plentyn, yn unol â'i oed a'i aeddfedrwydd (Erthygl 12);
- Bod gan blant hawl i ryddid mynegiant a'r hawl i chwilio am wybodaeth a syniadau, eu derbyn a'u rhannu trwy unrhyw gyfrwng a ddewisant (Erthygl 13);
- Parchu hawl plant i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd (Erthygl 14);
- Cydnabod hawl plant i ymwneud â'i gilydd yn heddychlon ac i ymuno â grwpiau a sefydliadau (Erthygl 15);
- Amddiffyn rhag ymyrraeth anghyfreithlon ym mhreifatrwydd plant, eu gohebiaeth, eu teuluoedd a'u cartrefi (Erthygl 16);
- Bod gan blant hawl i dderbyn gwybodaeth a deunyddiau sy'n ceisio hybu eu llesiant a chael eu hamddiffyn rhag gwybodaeth a deunyddiau a allai beryglu eu llesiant (Erthygl 17);
- Rhaid diogelu plant rhag camfanteisio a allai niweidio'u lles (Erthygl 36);
- Rhaid sicrhau'r safonau proffesiynol a iechyd a diogelwch uchaf bob amser (Erthygl 3.3)

Disgrifiwyd ymchwil fel 'chwilfrydedd wedi'i ffurfioli'; 'holi a stilio pwrpasol' (Zora Neale Hurston). Ers blynyddoedd lawer, bu plant yn destun ymchwil gan ymchwilwyr proffesiynol mewn gwahanol feysydd, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, ond ers mabwysiadu CCUHP yn 1989, bu diddordeb cynyddol mewn cynnwys plant mewn gwaith ymchwil trwy ddefnyddio dulliau cyfranogol sy'n fodd i blant chwarae rhan weithredol yn yr ymchwiliad.

Pa ddulliau bynnag a ddefnyddir, mae'n rhaid seilio pob ymchwil ar ganllawiau moesegol clir a rhaid rhoi mesurau cadarn ar waith i amddiffyn unrhyw blant sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil. Mae canllawiau'r NSPCC yn ddogfen gyfeirio ddefnyddiol ynghylch amddiffyn plant ac ymchwil.

Proses Lleisiau Bach Little Voices

Mae'r broses yn gweithio trwy gyfres o gamau. Gellir cyflawni'r camau hyn:

- Dros gyfnod o wythnosau neu
- Dros 2-3 diwrnod, neu
- Gellir eu haddasu mewn ffordd arall i gyd-fynd ag anghenion y grŵp penodol.

Mae'r dull yn defnyddio chwe cham thematig.

Cam	Thema	Hyd dangosol
1.	Y dull gweithredu seiliedig ar hawliau Dewis y cwestiwn ymchwil	2-4 awr
2.	Dewis dulliau ymchwilio Cynllunio'r ymchwil	2 awr
3.	Casglu a dadansoddi'r data	2 awr
4.	Cynllunio ar gyfer cydgynhyrchu oed-gynhwysol	2 awr
5.	Gwaith dilynol gyda'r plant	2 awr
6.	Cydgynhyrchu oed-gynhwysol a chynllunio at y dyfodol	2 awr

Cyn cam 1, mae'n hanfodol cyflawni'r tasgau cyn ymweliad, fel y nodwyd yn y Protocol Moesegol-Rhestr wirio ar gyfer cyflawni prosiect.

Dewis grŵp ymchwil

Mae'n bosibl y bydd y grŵp ymchwil:

- yn ei ddewis ei hun
- yn cael ei enwebu gan eraill
- yn cael ei nodi am reswm penodol (perthyn i brosiect neu gategori penodol)

Os byddwch yn rhedeg prosiect mewn ysgol, gall y pennaeth neu'r athro/athrawes ddewis y plant

- Cynrychiolydd o'r Cyngor Ysgol/pwyllgor eco/tîm rheoli'r ysgol
- Llysgennad Gwych y Comisiynydd Plant
- Hyrwyddwyr Parchu Hawliau

Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddwch am awgrymu bod pob aelod o ddosbarth neu brosiect yn cael cyfle i gynnig ei hun trwy ofyn, o bosibl, i'r plant enwebu eu hunain a chynnal proses deg y gallent ei chynllunio eu hunain. Neu, gallech awgrymu bod plant nad ydynt yn rhan o brosiectau neu bwyllgorau eraill, ac a allai gael budd arbennig o gymryd rhan, yn cael eu targedu'n fwriadol. Mae pob prosiect yn wahanol, ac yn y pen draw, bydd angen i chi a 'cheidwad y porth' gytuno ar y dull dethol a ddefnyddir.

Faint o blant?

- Bydd 6-8 o blant yn faint da ar gyfer grŵp, fel bod pob aelod o'r grŵp yn gallu cyfrannu'n effeithiol i'r tasgau dirprwyedig. Fodd bynnag, gall grwpiau mwy a grwpiau llai fod yn llwyddiannus hefyd.

Yr ymweliad cyntaf â'r plant

Yn ystod yr ymweliad cyntaf, mae'n bwysig bod y plant yn cael cynifer o fanylion â phosibl am y prosiect ymchwil. Materion i'w hystyried:

Gwybodaeth amdanoch chi:

- Pwy ydych chi?
- Beth yw eich rôl?
- I ba sefydliad/grŵp rydych chi'n gweithio?
- Ble gallan nhw gael rhagor o wybodaeth amdanoch chi a'ch gwaith? (gwefan, taflen)
- Sut mae cysylltu â chi
- Sicrhau bod y plant yn cael gwybodaeth hawdd ei deall ynghylch y camau cywir i'w dilyn er mwyn cwyno os byddant am wneud hynny.

Gwybodaeth am yr ymchwil:

- Pam rydych chi'n gweithio gyda'r plant?
- Beth fyddwch chi/beth fydd y plant yn ei neud?
- Beth rydych chi'n gobeithio'i gyflawni trwy'r prosiect?
- Esboniwch yr ymchwil/y prosiect. Ystyriwch ddefnyddio llinell amser, mapiwch nifer y sesiynau
- Esboniwch yr ymrwymiad sydd ei angen gan y plant i fod yn rhan o'r broses gyfan (os bydd hynny'n bosibl)
- Pa mor aml y byddwch yn eu gweld ac am ba hyd.
- Pwy arall fydd yn gweithio gyda chi yn ystod y sesiynau?
- Cad llygad ar y prosiect: rhoi '**Dyddiadur Ymchwil**'; i'r plant; bydd hynny'n eu helpu i ddeall beth fyddan nhw'n ei wneud ym mhob adran. Mae'n ffordd dda hefyd o gofnodi'r penderfyniadau a wnaed yn ystod y sesiynau. Gallwch chi a'r plant dreulio amser yn ei gwblhau ar ddiwedd pob sesiwn; gan atgoffa'r plant am y penderfyniadau maent wedi'u gwneud, beth sydd angen ei wneud erbyn y sesiwn nesaf a phwy fydd yn ei gyflawni.
- Amser holi ac ateb: bydd hyn yn gyfle i'r plant feddwl am unrhyw feysydd sydd heb dderbyn sylw ac yn rhoi amser iddyn nhw drafod y prosiect - gobeithion, ofnau, dymuniadau, syniadau cyntaf.

Gwybodaeth am y plant:

- Mae'n syniad da chwarae gêmau torri'r garw/dod i nabod ei gilydd
- Mae'n bosibl y bydd angen i chi ystyried casglu data:
  - Oed
  - Rhywedd
  - Cefndir
  - Laith
  - Anghenion penodol

  **Taflen weithgaredd amdanaf i: mae hon yn ffordd dda o archwilio hunaniaeth y plant a gellir ei defnyddio hefyd i gasglu'r wybodaeth uchod.*
- Hefyd, gallwch gasglu gwybodaeth ynghylch:
  - Beth yw cryfderau'r plant
  - Beth mae'r plant yn hoffi ei wneud yn eu hamser sbâr
  - Eu hoff bethau

  Gall y gweithgaredd hwn fod ar dempled neu gellir ei ychwanegu at y dyddiaduron ymchwil.

  **Cofiwch dynnu llun o'r taflenni 'amdanaf i' neu gasglu'r dyddiaduron i mewn y tro hwn er mwyn casglu'r data.*
- Gwerthuso cyn dechrau - dyma'r amser gorau i gael gwybodaeth gan y plant a fydd yn eich helpu i olrhain eich deilliannau/cerrig milltir/amcanion ond hefyd i bwyso a mesur dealltwriaeth gychwynnol y plant o'r meysydd pwnc y gallwch fod am roi sylw iddynt e.e. gwybodaeth am ymchwil, hawliau plant, gwneud penderfyniadau, cyfranogiad.

Cam 1: Y dull gweithredu ar sail hawliau

Amser	Dull	Adnoddau
	Nod: Cynyddu gwybodaeth y plant am CCUHP, hawliau plant, cyfranogiad a gwneud penderfyniadau	
	CCUHP a Hawliau Plant	
10-15 munud	**Cyflwyniad:** gwefan Hawliau Plant Cymru Deunyddiau hyfforddi Hawliau Plant Cymru	Y rhyngrwyd Cyfrifiadur/gliniadur
15 munud	**Beth sydd ei angen ar blant?** **Gweithgaredd:** Mewn grwpiau, gofynnwch i'r plant feddwl am yr hyn sydd ei angen ar blentyn: Mewn grwpiau, bydd y plant yn cwblhau 1 daflen yr un. Rhoi adborth fel grŵp Taflen	Taflenni 'beth sydd ei angen ar blentyn': - Yn y cartref - Yn yr ysgol - Yn yr amgylchedd - Yn unigol
10 munud	**Archwilio hawliau** Bydd yr hwylusydd wedi paratoi cardiau hawliau ymlaen llaw (cardiau symbolau y Comisiynydd Plant). Cyn dechrau'r sesiwn, bydd yr hwylusydd yn cuddio'r hawliau o gwmpas yr ystafell. **Gweithgaredd:** Mewn parau, bydd y plant yn cael hyd i'r hawliau yn yr ystafell ac yn eu gosod yn y lleoliad cywir (taflenni A4: unigol, cartref, ysgol, amgylchedd). Ar ôl i'r plant gael hyd i'r holl hawliau, bydd yr hwylusydd neu'r plant yn darllen yn uchel rai o'r hawliau ym mhob lleoliad. Edrychwch ar boster hawliau y Comisiynydd Plant ac archwiliwch yr hawliau yn fwy manwl.	Cardiau hawliau i'w torri allan (cardiau symbolau y Comisiynydd Plant) Defnyddiwch y taflenni gweithgaredd blaenorol (unigol, cartref, ysgol, yr amgylchedd) Poster hawliau y Comisiynydd Plant
5 munud	**Pam mae hawliau plant yn bwysig?** **Gweithgaredd:** ar dempled siâp llaw, ysgrifennwch pam mae'n bwysig bod hawliau gan blant.	Templed siâp llaw

	Cyfranogi	
5 munud	**Galw allan** Cwestiwn: Beth yw ystyr cyfranogiad? Mae cyfranogiad yn hawl: Erthygl 12 (parchu barn y plentyn) *Mae gan bob plentyn yr hawl i fynegi eu barn, eu teimladau a'u dymuniadau ynghylch pob mater sy'n effeithio arnynt, ac i'w barn gael ei hystyried o ddifrif.* UNICEF Dangoswch/darllenwch ysgol cyfranogiad ac esboniwch fod plant yn gallu cyfranogi mewn gwahanol ffyrdd.	Crynodeb Unicef o CCUHP
25 munud	**Gweithgaredd dringo'r ysgol** Paratowch 8 senario ymlaen llaw. Rhowch 1 senario ym mhob balŵn (8 balŵn). Rhyddhewch 1 balŵn ar y tro a chwarae'r gerddoriaeth gan ofyn i bawb daro'r balŵn yn ysgafn i'r awyr. Eglurwch na ddylai'r balŵn gyffwrdd â'r llawr. Pan fydd y gerddoriaeth yn peidio, dylai 1 person fod yn dal y balŵn Darllenwch y senario sydd ganddyn nhw a bydd rhaid i'r grŵp benderfynu pa lefel o gyfranogiad yw hwn. Cysylltwch y senario yn y man cywir ar yr ysgol A3. Gofynnwch i'r disgyblion feddwl am adeg pryd gallai plant fod wedi cyfrannu ar y lefel hon yn yr ysgol. Ailadroddwch y camau ar gyfer pob senario. ***Cadwch lefel 1 yn ôl tan y tro olaf er mwyn cysylltu â'r prosiect ac arwain at archwilio pynciau. Ailadroddwch y broses nes bod pob lefel wedi'i thrafod.	Y sgol cyfranogiad (wedi'i hargraffu ar bapur A3) a Senarios Balŵnau
	Gwneud penderfyniadau	
20 munud	Ffyrdd o gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau a phwy sy'n gallu helpu? Gan ddefnyddio'r ddalen 'pa benderfyniadau rydych chi'n/gallwch chi eu gwneud', gofynnwch i'r disgyblion dasgu syniadau ynghylch sut y gallant, a sut y byddant, yn gwneud penderfyniadau mewn gwahanol leoliadau. Gan ddefnyddio pin ysgrifennu lliw gwahanol, ewch ati i dasgu syniadau am y bobl sy'n gallu/sydd yn eich helpu i wneud y penderfyniadau hynny.	Taflen 'Pa benderfyniadau rydych chi'n/ gallwch chi eu gwneud'
	Adnoddau ychwanegol Gweithgaredd Ffortiwn Hawliau - dywedwch wrth y plant am dorri o amgylch y templed, ei blygu i'w siâp a gweithio mewn parau.	Gweithgaredd Ffortiwn Hawliau
	Gwybodaeth Ychwanegol Hawliau Plant Llywodraeth Cymru – CCUHP Comisiynydd Plant Cymru Pwyllgor y CU	

Dewis y cwestiwn ymchwil

Amser	Tasg	Adnoddau
	Nod: Rhannu dulliau o gasglu data ar bynciau ymchwil.	Taflen Gyfarwyddiadau
20-30 munud	Edrychwch ar y daflen gyfarwyddiadau i gael gwybod sut mae cynnal y gweithgareddau hyn: Mae'n bwysig treulio amser ar y gweithgaredd hwn. Po fwyaf o syniadau a gasglwch, mwyaf y bydd hynny'n helpu'r plant pan fyddant yn dewis pynciau ymchwil i'w harchwilio'n fanylach. *Os bydd y plant yn cael y dasg hon yn anodd, mae'n bosibl y byddwch am ymweld â gwefan: www.lleisiaubach.org i ddangos rhai o'r pynciau a ddewiswyd mewn prosiectau blaenorol. **Gofynnwch i'r plant feddwl beth hoffen nhw ei newid, ei wella, y pethau sy'n eu poeni neu'r pethau bydden nhw'n hoffi gwneud pobl yn fwy ymwybodol ohonyn nhw a/neu rywbeth y dylai plant neu oedolion fod yn galw allan amdano dros blant?** Dewiswch 1 neu ragor o'r dulliau canlynol: **1.** Taflenni galw allan - dalen Gall y plant ysgrifennu rhestr neu dynnu llun o'u syniadau ar ddalen neu ddalennau *Os bydd y plant yn tynnu lluniau, mae'n bosibl y byddwch am nodi'r pwnc gan fod modd dehongli lluniau mewn gwahanol ffyrdd **2.** Taflen - Ysgol, cymuned, byd Torrwch o amgylch y lluniau a'u cysylltu wrth fflipsiart ar wahân **3.** Taflen - Gwneud dymuniad Gall y plant ysgrifennu eu dymuniadau ar y papurau torri a'u cysylltu wrth fflipsiart. Dylai'r hwylusydd neu'r athro/athrawes lunio rhestr ar fflipsiart yn ystod yr adborth er mwyn helpu'r plant pan fyddant yn pleidleisio ar y 3 phwnc maen nhw am eu dewis i'w harchwilio nesaf.	Gweithgareddau parod: Taflenni galw allan Fflipsiart Lluniau ysgol, cymuned, byd. Lluniau torri – Dymuniadau Pinnau ysgrifennu
5 munud	Dewis y 3 uchaf trwy bleidleisio dros eu ffefrynnau	Fflipsiart, pinnau ysgrifennu, smotiau pleidleisio wedi'u torri'n 3
20-30 munud	Edrych yn fanwl ar y pwnc: Dewiswch un o'r dulliau canlynol **1.** Gweithgaredd coeden Mae'n bosibl y byddwch am ddefnyddio'r templed neu dynnu llun ar y fflipsiart. **2.** Gweithgaredd cylchoedd **3.** Gweithgaredd pot blodau	Taflen Gyfarwyddiadau Gweithgareddau parod ar y fflipsiart gyda deunyddiau
5 munud	Pleidleisio - Bydd y plant yn cael 1 smotyn ac yn pleidleisio dros un pwnc i'w ddewis ar gyfer yr ymchwil	Dalennau o smotiau gludiog

Cam 2: Dewis dulliau ymchwilio

Amser	Dull	Adnoddau
	Nod: Rhannu dulliau ymchwilio a phenderfynu pa ddulliau a fyddai'n gweddu i'r cwestiwn ymchwil. *Ni fydd pob dull yn berthnasol i'r pwnc ymchwil mae'r plant wedi'i ddewis.	
*5-10 munud wrth bob gorsaf	Efallai byddwch am gyfeirio at y daflen dulliau ymchwilio sy'n cynnwys esboniad byr o'r holl ddulliau isod. Mewn grwpiau bach neu mewn parau, bydd y plant i gyd yn cymryd rhan yn y gorsafoedd gweithgaredd a baratowyd ymlaen llaw. *Mae'n bosibl y byddwch am greu eich adnoddau eich hun ar gyfer y gorsafoedd cyfranogi. **Cyfranogi** **1.** Blwch awgrymiadau **2.** Holiadur **3.** Arolwg Ar-lein **4.** Fflipsiart/waliau graffiti **Digidol** - yng ngofal yr hwylusydd **1.** Plickers (gosodwch eich cwestiynau prawf ymlaen llaw) Lawrlwythwch ganllawiau cam wrth gam o'r ddolen uchod. **2.** Arolwg ar-lein (gosodwch eich arolwg prawf ar-lein eich hun ymlaen llaw). **3.** Fideo (y plant i ffilmio'i gilydd yn ateb cwestiynau a baratowyd ymlaen llaw). **4.** Tynnu ffotograffau (mae'n bosibl y byddwch am ddweud wrth y plant am gofnodi emosiwn - hapus/trist - ar ffurf delwedd lonydd tra byddant yn ymweld â'r orsaf hon). Yn ddelfrydol byddech yn trafod cryfderau a gwendidau pob dull, ar ôl rhoi cynnig ar bob gorsaf, cyn cynnal y bleidlais derfynol. Bydd y disgyblion yn cael 1 smotyn gludiog er mwyn dewis eu dull ymchwilio	Gweithgareddau parod: Blwch Awgrymiadau a chardiau cwestiwn Holiadur Fflipsiart/wal graffiti Gweithgaredd tynnu llun Un ddyfais - iPad/ ffôn - arolwg ar-lein - cardiau Plickers - Canllawiau ar ddefnyddio Survey Monkey - Canllawiau ar ddefnyddio Plickers Dalen dewis dull ymchwilio Smotiau gludiog

Cynllunio'r ymchwil

Amser	Tasg	Adnoddau
	Nod: Archwilio sut mae cynllunio'r ymchwil gyda'r plant.	
10 munud ar bwyntiau 1, 3, 4, a 5 15-20 munud ar bwynt 2.	Trafodaeth grŵp cyfan **Yr hwylusydd i weithio trwy bob adran sydd wedi'i rhifo ar y fflipsiart** **1.** Pwy ydych chi am eu cynnwys yn eich ymchwil? **2.** Beth rydych chi am ei ofyn? *Mae'n bosibl y byddwch am gyfeirio'n ôl at y materion problemau o'r gweithgareddau archwilio pynciau blaenorol Yr hwylusydd i dynnu'r cwestiynau ynghyd **3.** Pryd cynhelir yr ymchwil? **4.** Sut caiff ei chynnal? **5.** Beth arall sydd angen ei wneud? Sut Pam	Taflen 5 cwestiwn Pinnau ysgrifennu Fflipsiart Nodiadau gludiog ar gyfer datblygu cwestiynau
	Os bydd y gwaith yn digwydd mewn ysgol, yr arfer gorau fydd siarad â'r athro cyswllt neu'r pennaeth cyn gadael er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi'r cynllun ymchwil a bod y manylion i gyd yn iawn cyn symud ymlaen.	

Cam 3: Casglu a dadansoddi data

Cyn casglu'r data, mae'n rhaid i'r plant gael gwybod am foeseg ymchwil, ac ystyried sut byddan nhw'n rhoi hynny ar waith yn ystod eu gweithgareddau casglu data.

Gweithgaredd moeseg ymchwil - brawddegau cytuno/anghytuno
Gweithgaredd rhestr wirio Safonau Cyfranogiad

Casglu Data:

Dylai'r plant gyfrannu gymaint â phosibl at benderfynu ble a sut bydd y dulliau ymchwilio a ddewiswyd yn cael eu defnyddio a dylent wneud cymaint o'r gwaith paratoi â phosibl.

Mae'n bosibl y bydd angen cymorth arnynt wrth gynnal yr ymchwil - dylid bod wedi ystyried y mater hwn a chynllunio ar ei gyfer yn ystod y cyfnodau cynllunio.

Cofiwch drafod materion diogelwch gyda'ch gr p ac, os bydd rhai, gofalwch sicrhau **ETO** fod yr holl blant yn ymwybodol ohonynt.

Bydd yr amser a dreulir yn dadansoddi data yn dibynnu ar faint o wybodaeth a gasglwyd a sawl dull a ddefnyddiwyd.

Defnyddiwch y cynghorion dadansoddi data hyn i'ch helpu chi a'r plant gyda'r broses ddadansoddi.



Cam 4: Cynllunio ar gyfer cydgynhyrchu oed-gynhwysol

Cyfarfodydd cydgynhyrchu: oedolion a phlant yn gweithio i gyflawni newid gyda'i gilydd

Datblygu'r gallu angenrheidiol ymhlith plant ac oedolion i gyfranogi'n effeithiol ac oed-gynhwysol mewn datblygu cymunedol a gweithredu cymunedol.

- Rydym yn defnyddio **''cyfranogi effeithiol'** effeithiol' i olygu proses lle bydd yr holl gyfranogwyr yn dewis ymgysylltu ac y bydd y canlyniadau'n dylanwadu ar benderfyniadau neu weithredoedd yn ogystal â chael effaith gadarnhaol ar yr unigolion sy'n cymryd rhan.
- Rydym yn defnyddio **'datblygu cymunedol'** i olygu gwneud newidiadau er mwyn gwella bywyd cymunedau - mae'n bosibl y bydd angen ysgogi'r newidiadau hyn ar lefel sefydliad, lefel cymuned leol neu lefel genedlaethol yng Nghymru, yn y Deyrnas Unedig neu'n rhyngwladol, neu gyfuniad o'r rhain.
- Rydym yn defnyddio **'gweithredu cymunedol'** i olygu gweithredu cydweithredol neu weithredu ar y cyd sydd â'r nod o ysgogi newidiadau fel y rhai.

Mae sawl diffiniad gwahanol o gydgynhyrchu, sydd fel arfer yn gysylltiedig â darparu gwasanaethau cyhoeddus. Fel man cychwyn, rydym yn hoffi'r dyfyniadau canlynol ar wefan Rhwydwaith Cydgynhyrchu yr Alban[1]:

> ***'Mae'n golygu cynnwys pobl, nid yn unig yn y gwaith o rwyfo a llywio'r cwch, ond hefyd yn y gwaith o adeiladu'r cwch ei hun.*** **(Mr Sandy Watson OBE DL, Cadeirydd NHS Tayside)**
>
> ***... mae'n golygu cyfuno'r cryfderau a'r galluoedd sydd gennym er mwyn i ni allu gweithio ar sail gyfartal er mwyn cyflawni newid cadarnhaol'.*** **(Fiona Garven, Cyfarwyddwr, Canolfan Datblygu Cymunedol yr Alban)**

Dylid cynnal cyfarfodydd cydgynhyrchu yn ystod pob prosiect ymchwil. Byddant yn dod â phlant, gweithwyr proffesiynol a llunwyr penderfyniadau at ei gilydd i weithredu, ar sail ymchwil y plant, er mwyn gwneud newidiadau a fydd yn gwella bywydau pobl yn eu cymunedau.

Dylai rheolwr neu weithiwr arweiniol y prosiect ddefnyddio'i holl gysylltiadau a rhwydweithiau perthnasol i gysylltu â'r gweithwyr proffesiynol, yr ymchwilwyr, a'r llunwyr penderfyniadau perthnasol neu gynorthwywyr eraill er mwyn sicrhau cyfuniad o gyfranogwyr sy'n addas ar gyfer y pwnc a ddewiswyd ac sy'n gallu cysylltu orau â phenderfyniadau ar y lefel briodol.

[1]'What is co-production?' Rhwydwaith Cydgynhyrchu yr Alban
http://www.coproductionscotland.org.uk/about/what-is-co-production/

Cyfarfodydd Cydgynhyrchu

Yn y cyfarfodydd cydgynhyrchu, bydd y plant a'r oedolion a ddewiswyd yn rhannu p er ac yn cydweithio mewn partneriaeth gyfartal, er mwyn nodi pa newidiadau y dylid eu gwneud a sut gellir eu cyflawni. Cytunir ar gamau gweithredu a chynlluniau.

Trefnu cyfarfod cydgynhyrchu:

- **Gyda'r plant** ewch ati i ymchwilio, targedu a gwahodd y cydgynhyrchwyr (ar sail y gwaith a wnaed yn ystod y tri cham cyntaf, yn enwedig Cam 3: Dadansoddi a 'Beth Nesaf?' – cysylltu â gweithwyr proffesiynol, ymarferwyr, llunwyr penderfyniadau)
- Dylai'r plant lunio gwahoddiad (Publisher, Canva, Piktochart) sy'n rhoi gwybodaeth i'r cydgynhyrchwyr am amser, man cynnal a brîff y cyfarfod.
- Yna, dylai arweinydd y prosiect wahodd y cydgynhyrchwyr i gymryd rhan gan gofnodi'r cydgynhyrchwyr sy'n cadarnhau y byddan nhw'n bresennol.
- Rhoi gwybodaeth i'r cydgynhyrchwyr a'u paratoi: Bydd arweinydd y prosiect yn rhoi brîff ysgrifenedig i bob cydgynhyrchydd a wahoddwyd, a fydd yn amlinellu methodoleg Lleisiau Bach a nodau eich prosiect ymchwil, crynodeb o'r gwaith a wnaed gan y prosiect lleol ac unrhyw fewnbwn penodol a geisir gan y sawl a wahoddwyd. Os bydd y plant wedi llunio adroddiad, gellid anfon hwnnw ymlaen cyn y cyfarfod cydgynhyrchu.

Ôl-drafodaeth gyda'r plant:

- Gofalwch fod y plant wedi cael gwybodaeth briodol am broses a strwythur y cyfarfod cydgynhyrchu (dyddiad, amser, pwy fydd yn bresennol, beth fydd y plant yn ei wneud).
- Adolygwch y gweithgareddau, y tasgau, y dull cyflwyno, y llinell amser, unrhyw fater arall, cwestiynau.
- Gweithgaredd gobeithion ac ofnau - mae'n bosibl y byddwch am roi cyfle i'r plant ysgrifennu eu gobeithion a'u hofnau/pryderon ar nodiadau gludiog a'u glynu ar fflipsiart. Bydd hynny'n gyfle i'r hwylusydd neu'r athro ddatrys unrhyw faterion eraill y gall fod angen eu hegluro i'r plant. Mae'n gyfle hefyd i'r plant deimlo'n gyffrous ynghylch y gweithgareddau y maent wedi'u trefnu.

Cyfarfod cydgynhyrchu gyda phlant ac oedolion:

Bydd y cydgynhyrchwyr a wahoddwyd yn cyfarfod â'r gr p prosiect lleol. Cyflwynir a chyfnewidir gwybodaeth am yr ymchwil, y canfyddiadau a'r argymhellion a llunnir cynllun gweithredu gyda'r plant a'r oedolion yn cydweithio. Nodir camau gweithredu clir yngl n â rolau'r cydgynhyrchwyr o ran cefnogi'r plant a'u helpu i greu'r newidiadau a ddymunant. Cytunir ar gamau gweithredu a neilltuir tasgau.

Amser	Tasg	Adnoddau
	Nod: **1.** Creu cysylltiad rhwng y plant a'r cydgynhyrchwyr - gan gydweithio i ysgogi newid ar sail yr ymchwil a'r argymhellion. **2.** Rhannu'r ymchwil ac argymhellion yr ymchwil. **3.** Cydgynhyrchu camau gweithredu a thasgau i hyrwyddo'r gwaith o weithredu newid.	
5 munud	**Dod i adnabod ein gilydd: y plant a'r cydgynhyrchwyr** Enw. Rôl. Sefydliad/ysgol, hoff... Gweithio mewn parau i gael hyd i'r atebion a chyflwyno'r person arall yn ystod yr adborth.	Gêm torri'r garw
5-15 munud	**Cyflwyniad:** Y plant i gyflwyno'r ymchwil, y canfyddiadau a'r argymhellion. **1.** PowerPoint, iMovie, araith, **2.** Dosbarthu'r adroddiadau a'r argymhellion	Cyflwyniad iMovie Adroddiadau Argymhellion
30 munud	**Llunio camau gweithredu a thasgau:** **1.** Dalen fflipsiart ar gyfer pob argymhelliad -y plant a'r oedolion i gydweithio mewn parau/grwpiau bach ac ysgrifennu syniadau ar nodiadau gludiog. Bydd angen glynu'r nodiadau ar y ddalen argymhellion berthnasol ar y fflipsiart. **2.** Sut? Sut? Sut? Fesul argymhelliad (Gr p Cyfan) **3.** Olwyn archwilio fesul argymhelliad mewn grwpiau bach - carwsél *Dylai pob gweithgaredd drafod syniadau ar gyfer gweithredu, rhestr o dasgau ac arweinydd (cydgynhyrchwyr, plant, Arweinydd Prosiect) i hyrwyddo'r gwaith.	Fflipsiart Pinnau ysgrifennu Argymhellion
15 munud	Ôl-drafodaeth - Yr hwylusydd i egluro wrth y plant beth fydd eu rôl o ran helpu i hyrwyddo camau gweithredu a thasgau, a sicrhau bod yr ymrwymiadau'n cael eu cofnodi ar adduned ymrwymiadau'r cydgynhyrchwyr. Gofalwch fod addunedau'r cydgynhyrchwyr yn cael eu casglu i mewn a'ch bod yn dweud wrth y cydgynhyrchwyr y bydd yr hwylusydd neu'r athro yn anfon yr wybodaeth atynt.	Adduned y Cydgynhyrchwyr - wedi'i llofnodi

Cam 5: Gwaith dilynol gyda'r plant

(Y plant yn unig)

★ Ar ôl saib, pryd y cyflawnir y camau y cytunwyd arnynt, bydd arweinydd y prosiect yn cyfarfod â'r grŵp prosiect lleol (y plant) unwaith eto i adolygu cynnydd a pharatoi ar gyfer y cyfarfod nesaf â'r cydgynhyrchwyr.

Amser	Tasg	Adnoddau
	Nod: Gweithgaredd cydgynhyrchu: adolygu cynnydd a chytuno ar gamau gweithredu pellach. **1.** Mapio'r gweithgarwch ers y cyfarfod cydgynhyrchu **2.** Adolygu'r camau gweithredu **3.** Adolygu'r tasgau	
45 munud	**Gweithgaredd Llinell Amser** **1.** Bydd bwrw golwg dros y prosiect cyfan yn ddefnyddiol o ran atgoffa'r plant am y broses ymchwil. **2.** Adolygu'r rhestr o argymhellion **3.** Adolygu'r rhestr o dasgau a chamau gweithredu a luniwyd yn y cyfarfod cydgynhyrchu - gweithgaredd gwirio cyflawniadau gan ddefnyddio'r templedi mapio'r ffordd.	Tynnu llinell amser (ar fflipsiart) o ddechrau'r prosiect hyd yn awr gyda lle i nodi camau gweithredu yn y dyfodol Rhestr o'r camau gweithredu a'r tasgau a luniwyd yn y cyfarfod cydgynhyrchu (ysgrifennu pob argymhelliad neu dasg unigol ar garden dorri) Templedi mapio'r ffordd
15 munud	**Beth nawr?** **1.** Beth sydd heb ei gyflawni? Beth sydd angen ei ddatblygu o hyd? **2.** Beth mae'r plant am ei weld yn digwydd?	Nodiadau gludiog
45 munud	**Galw i gyfrif** **1.** Cynllunio a pharatoi cyfarfod effaith 2: Sut maen nhw am gyflwyno eu hadolygiad i'r cydgynhyrchwyr? (Cyflwyniad, adroddiad/arddangosfa). Pa adnoddau fydd eu hangen?	
15 munud	**Ôl-drafodaeth** Esbonio wrth y plant y bydd yr wybodaeth hon yn cael ei rhannu â'r cydgynhyrchwyr cyn eu cyfarfod nesaf. Bydd hyn yn fodd i'r cydgynhyrchwyr holi'r bobl berthnasol i gael gwybod beth sydd wedi digwydd/heb ddigwydd, beth sy'n dal ar waith neu'r pethau posibl sy'n dal i gael eu cynllunio. Rhwng y cyfarfodydd, bydd yr hwylusydd neu'r athro yn paratoi deunydd gweledol sy'n dangos yr adolygiad gweithredu gan y plant (cyflwyniad, adroddiad, arddangosfa). Cyflwynir y deunydd gweledol hwn yn y cyfarfod cynllunio cydgynhyrchu oed-gynhwysol terfynol.	Bydd yr hwylusydd neu'r athrawon yn trefnu cyfarfod Cam 6 Hysbysu'r plant a'r ysgol/sefydliad am y trefniadau ar gyfer Cam 6 (lleoliad, amser, pwy fydd yn bresennol)

Cam 6: Cydgynhyrchu oed-gynhwysol a chynllunio ar gyfer y dyfodol

Cydgynhyrchu: oedolion a phlant yn cydweithio

- Bydd y cydgynhyrchwyr a wahoddwyd a'r gr p prosiect lleol yn cyfarfod i adolygu cynnydd a chytuno ar gamau gweithredu pellach.

Yn ystod y cyfarfod hwn, bydd y plant a/neu'r hwylusydd neu'r athro yn cyflwyno deunydd gweledol i'r cydgynhyrchwyr ynghylch yr adolygiad gweithredu (cyflwyniad, adroddiad, arddangosfa).

Gan ddefnyddio'r gweithgaredd **'Llunio camau gweithredu a thasgau'** o'r cyfarfod Cydgynhyrchu cyntaf, bydd y plant a'r cydgynhyrchwyr yn cydweithio, yn cytuno ar gynllun gweithredu er mwyn datblygu ymhellach/cefnogi/rhoi camau ar waith i gyflawni'r newidiadau a gyflwynwyd gan y plant.

- Dalen fflipsiart ar gyfer pob argymhelliad neu dasg
  -y plant a'r oedolion i gydweithio mewn parau/grwpiau bach ac ysgrifennu syniadau ar nodiadau gludiog. Bydd angen rhoi'r nodiadau ar y ddalen argymhellion berthnasol.
- Sut? Sut? Sut? Fesul argymhelliad (Grŵp Cyfan)
- Olwyn archwilio fesul argymhelliad mewn grwpiau bach - carwsél

*Dylai pob gweithgaredd drafod syniadau gweithredu, rhestr o dasgau ac arweinydd (cydgynhyrchwyr, plant, Arweinydd Prosiect) i hyrwyddo'r gwaith.

Byddai'n syniad da bod y cydgynhyrchwyr yn llofnodi 'Adduned y Cydgynhyrchwyr' er mwyn olrhain a monitro camau gweithredu a thasgau pellac.

Cysylltwch â Ni

Lleisiau Bach - Little Voices

www.lleisiaubach.org
@lleisiaubach

De Cymru

Helen Dale

Coleg y Gyfraith a Throseddeg,
Prifysgol Abertawe, Parc Singleton,
Abertawe SA2 8PP

E-bost: h.dale@swansea.ac.uk

Gogledd Cymru

Arwyn Roberts

Hiraethog, Ysgol Addysg
Prifysgol Bangor, Safle'r Normal,
Bangor, Gwynedd LL57 2PZ

E-bost: a.b.roberts@bangor.ac.uk

© Hawlfraint Helen Dale ac Arwyn Roberts Tachwedd 2017